



Datblygu Cyfleoedd Gwirfoddoli Hyblyg

Mae gwneud gwirfoddoli yn fwy hyblyg yn elwa gwirfoddolwyr a'r sector gwirfoddol.

Dyma sut...



Beth yw gwirfoddoli hyblyg?

Mae gwirfoddoli hyblyg yn ymwneud â theilwra'r rôl wirfoddoli i gymhelliannau, sgiliau, diddordebau ac ymrwymiad amser unigolyn. Ni all pob rôl fod yn gwbl hyblyg ac wedi'i theilwra yn arbennig i unigolyn, fodd bynnag hyd yn oed pan mae rôl yn mynnu sgiliau neu ymrwymiad amser penodol, gellir gwneud addasiadau bach i wneud y rôl yn llai cyfarwyddol.



Pam datblygu cyfleoedd gwirfoddoli hyblyg?

- **Dileu rhwystrau i wirfoddoli** – dengys ymchwil y dyfynnir blaenoriaethau yn gwrthdaro fel y rhwystrau mwyaf i wirfoddoli. P'un a yw'n golygu gwaith, ymrwymadau gofal plant, neu dreulio amser yn cymryd rhan mewn hobiau neu ddiddordebau eraill – mae pobl yn byw bywydau prysur. Bydd cymryd ymagwedd fwy hyblyg yn galluogi mwy o bobl i ymwneud â gwirfoddoli.
- **Newid y canfyddiad o wirfoddoli** – un o'r rhesymau cyffredin pam nad yw pobl yn gwirfoddoli, yw eu bod yn credu y bydd yn cymryd gormod o amser ac nad yw'n ddigon hyblyg. Gall cymryd ymagwedd fwy personol a hyblyg at reoli gwirfoddoli chwalu'r canfyddiad hwn.
- **Gwneud gwirfoddoli yn fwy cynhwysol** – gall datblygu cyfleoedd hyblyg wneud gwirfoddoli yn fwy hygyrch. Gall rôl sefydlog wedi'i diffinio'n gaeth fod yn rhwystr i gymryd rhan, yn enwedig i bobl gydag anableddau a chyflyrau iechyd. Dylai pawb gael y cyfle i brofi buddion gallu gwneud cyfraniad ystyrlon i eraill.





- **Cynyddu amrywiaeth ymhlith eich sylfaen o wirfoddolwyr** – bydd gwneud yn siŵr bod eich cyfleoedd gwirfoddoli yn hyblyg, ac felly yn fwy cynhwysol, yn cynyddu amrywiaeth eich gwirfoddolwyr. Yn ogystal â chael sylfaen o wirfoddolwyr sy'n fwy cynrychioladol o'r gymuned mae'n ei chefnogi, bydd eich sefydliad yn elwa o ystod ehangach o sgiliau, rhagolygon a phrofiadau bywyd gwahanol a syniadau ffres. Bydd hefyd yn eich helpu i ddeall ac ymateb yn well i anghenion y gymuned.

- **Gwella cyfraddau cadw gwirfoddolwyr** – gall gwirfoddoli hyblyg leihau'r pwysau ar wirfoddolwyr a gwella cymhelliant. Os nad yw rôl yn bleserus a gwobrwyol, bydd gwirfoddolwyr yn gadael.
- **Galluogi gwirfoddolwyr i ddefnyddio eu sgiliau i'r eithaf** – yn hytrach na gosod y gwirfoddolwr mewn rôl bresennol, mae gwirfoddoli hyblyg yn teilwra'r rôl i gyd-fynd â'r unigolyn, gan ganiatáu i'w gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau bywyd gael mwy o effaith.





Sut mae datblygu cyfleoedd gwirfoddoli hyblyg

Dechreuwch drwy ofyn y canlynol i ddarpar wirfoddolwr, i helpu i ddatblygu rôl sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw:



Beth yw eu cymhelliannau dros wirfoddoli – beth maent yn gobeithio ei gael o'r rôl?



Beth yw eu hargaeledd – a allant wirfoddoli yn ystod yr wythnos, ar benwythnosau, gyda'r nos, ar sail reolaidd neu ad-hoc, mewn darnau bach neu unwaith?



Beth yw eu sgiliau, galluoedd, profiadau a diddordebau (mae profiadau bywyd yr un mor bwysig)?



Beth fyddai'n gwneud y rôl yn fwy hygyrch e.e. ardaloedd ffisegol, sut y caiff treuliau parod eu had-dalu, y ffordd y caiff gwybodaeth ei darparu, sut y caiff hyfforddiant ei gyflwyno?



Beth fyddant yn hoffi ei wneud?





Ffyrdd o wneud gwirfoddoli yn fwy hyblyg

- Datblygu detholiad amrywiol o rolau gwirfoddoli i weddu i ystod o ffyrdd o fyw a setiau sgiliau
- Cynnig y cyfle i'r gwirfoddolwr rannu rôl
- Darparu cyfleoedd gwirfoddoli gartref neu o bell – mae sawl ffordd y gall gwirfoddolwyr gefnogi eich sefydliad gartref e.e. codi arian, cynnal gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol, hyrwyddo eich sefydliad a phrosiectau, tasgau gweinyddol, rolau dros y ffôn, creu deunyddiau marchnata, ysgrifennu blogiau, erthyglau ac astudiaethau achos
- Ceisio gwneud eich proses recriwtio gwirfoddolwyr yn llai llafurus a beichus
- Ystyried sut mae gwneud hyfforddiant yn fwy hyblyg, er enghraifft a ellir ei rannu yn segmentau os yw'n hir, a allwch chi ei gynnig ar-lein yn ogystal ag wyneb yn wyneb
- Creu cyfleoedd untro i alluogi gwirfoddolwyr gydag ychydig o amser sbâr neu'r rheiny sy'n cael eu troi draw gan yr ymrwymiad ynghlwm â gwirfoddoli, i gymryd rhan.

- Meddwl yn greadigol ynglŷn â sut y gall y gwirfoddolwr ddefnyddio eu doniau orau o fewn eich sefydliad
- Datblygu rolau y gellir ymgymryd â nhw yn ystod gwyliau ysgol neu'r tu allan i oriau arferol i alluogi pobl ifanc a'r rheiny mewn addysg i gymryd rhan
- Cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i'r teulu i alluogi rhieni i wirfoddoli
- Adolygu gofynion eich rolau gwirfoddoli – a yw'r holl ofynion yn angenrheidiol neu a ellir cael rhywfaint o hyblygrwydd, a yw'r gofynion hyn yn atal pobl benodol rhag gwirfoddoli.

Mae datblygu cyfleoedd gwirfoddoli hyblyg yn mynd law yn llaw â gwneud gwirfoddoli yn fwy cynhwysol a gwella'r effaith gadarnhaol mae gwirfoddoli yn ei chael ar wirfoddolwyr a bywydau'r rheiny y maent yn eu cefnogi.



Prosiect amlasiantaethol yw

Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg

sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyr sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwaith o'u rheoli a chydlynu ar draws ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ariennir gan Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

Partneriaid y prosiect yw:

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

www.westglamorgan.org.uk/wgvs